# Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru: cynnig i gefnogi gwaith trawsffiniol a rhyngwladol

## Y Cefndir

Yn naturiol ddigon, bydd y broses o ymadael â'r UE yn codi cwestiynau dilys am ddyfodol ein partneriaethau – ein partneriaethau yn y DU ac yn rhyngwladol, a'r partneriaethau yng Nghymru rydym yn rhan ohonynt ar hyn o bryd.

Beth bynnag fo'r heriau, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn glir nad yw'r ffaith ein bod yn ymadael â'r UE yn golygu troi ein cefn ar ein partneriaid yn Ewrop. Mae Brexit yn cryfhau'r angen i Gymru ddangos ei bod yn bartner effeithiol a dibynadwy, sy'n cydweithio yn y DU a'r UE ac ar draws y byd hefyd i gyflawni nodau cyffredin.

Mae Econotherm Ltd ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi sicrhau €1.3m o arian yr UE i weithio ar brosiectau Horizon 2020, sy'n datblygu technoleg newydd er mwyn ceisio lleihau ôl troed carbon gwahanol ddiwydiannau a faint o ynni maent yn ei ddefnyddio.

Mae'r cwmni yn cynllunio, yn gweithgynhyrchu ac yn allforio systemau adfer gwres ar hyd a lled y byd, ac mae'n ymwneud â phedwar o brosiectau Horizon 2020, ochr yn ochr â busnesau a chanolfannau ymchwil o bob cwr o Ewrop.

Dywedodd Mark Boocock, Rheolwr Gyfarwyddwr Econotherm:

"Mae arian Horizon 2020 yr Undeb Ewropeaidd wedi bod yn allweddol, wrth alluogi Econotherm i gydweithio â'r partneriaid academaidd a diwydiannol 'gorau yn eu maes' ar draws Ewrop".


"Bydd y prosiectau rydym wedi'u sicrhau yn rhoi cyfle i ni fwrw ymlaen â rhai o'n technolegau sydd eto i'w datblygu'n llawn, er mwyn eu cyflwyno'n fasnachol. Gan fod y gwahanol gonsortia hefyd yn cynnwys cwmnïau gweithgynhyrchu mawr, rhagwelir y bydd llawer o'r rhain yn gwsmeriaid i'r cynnyrch technegol terfynol, gan iddynt fod yn rhan o'r broses o ddatblygu'r cynnyrch o'r cychwyn."

Un o elfennau mwyaf gwerthfawr Cyllid Ewropeaidd yng Nghymru oedd ei allu i ddwyn partneriaid ynghyd ar draws gwledydd i gydweithio ac i ddenu cyllid a chyfleoedd. Mae Llywodraeth Cymru yn sylweddoli gwerth cydweithio fel hyn, sydd wedi galluogi ein rhanddeiliaid i ddod o hyd i atebion go iawn i heriau cyffredin ar draws ein ffiniau, ac rydym yn sicr yn awyddus i barhau â'r cydweithio. Mae Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at bwysigrwydd edrych tuag allan at Ewrop a thu hwnt, gyda'r nod allweddol o godi proffil Cymru yn rhyngwladol.

Mae angen i'r strwythurau y byddwn yn eu sefydlu, a'r cyllid y byddwn yn ei neilltuo, adlewyrchu'r ymrwymiad hwn. Cyllid Ewropeaidd sy'n ariannu llawer o'r cydweithio ar hyn o bryd, a bydd angen i'r Llywodraeth wneud penderfyniadau bwriadol i gynnal a gwella hynny wrth symud ymlaen.

Pan ddaw cyfleoedd i'n partneriaid yng Nghymru, yn y DU ac yn rhyngwladol yn y dyfodol, rydym am i'r cysylltiadau a'r strwythurau cyllido ein galluogi i gydweithio. Rydym ni o'r farn bod cyfle hefyd i sicrhau **newid sylweddol** o ran gwaith trawsffiniol a rhyngwladol:

- manteisio ar y rhyddid i gefnogi mwy o waith ar heriau a chyfleoedd cyffredin a chael mynediad at fwy o gyllid yn y DU, er enghraifft Cronfeydd Her y DU, Catapyltiau a Bargeinion Sector;
- cynyddu'r buddion sy'n cronni wrth ymgysylltu â rhwydweithiau a rhaglenni Ewropeaidd, er enghraifft Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd, Horizon Europe, Erasmws+ ac Ewrop Greadigol; ac
- ehangu i bersbectif mwy byd-eang i sicrhau ein bod yn cael statws gwell yn y byd a gwneud y mwyaf o fudd y statws hwnnw, drwy bartneriaethau cryfach, mwy o fasnachu a mynediad at gyfleoedd cyllido.




**Y dull gweithredu a gynigir**

1. *Dylai cyllid Rhyngwladol/Trawsffiniol fod ar gael yn llorweddol ar draws pob maes er mwyn ymateb i gyfleoedd a ddaw i'r amlwg.*


Heb gyllid penodol i ymateb i gyfleoedd wrth iddynt ddod i'r amlwg, byddai gwaith trawsffiniol a rhyngwladol yn gyfyngedig a byddai diffyg cydlyniaeth strategol i'r gwaith. Byddai llawer o gyfleoedd yn cael eu colli yn sgil hynny.

Er mwyn manteisio ar gyfleoedd – naill i gystadlu am gyllid, neu i feithrin a chynnal cysylltiadau â'n partneriaid yn y DU ac yn rhyngwladol i ystyried cyfleoedd posibl – mae angen adnoddau ariannol ac amser, sy'n gallu bod yn rhwystr rhag cymryd rhan. Mae rhwydweithiau perthnasol ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol yn gallu cynnig cyfleoedd i gyfuno adnoddau er mwyn rhannu gwybodaeth, nodi a chyfnewid arferion gorau, arloesi a sicrhau canlyniadau gweladwy sydd o fudd i bawb, a datrys problemau cyffredin ar y cyd.

Wrth bwyso a mesur anghenion ein partneriaid lleol a rhanbarthol, mae angen cyfleoedd cyllido penodol – yn enwedig ar y camau cynnar – i feithrin cysylltiadau trawsffiniol a rhyngwladol ac i gyfnewid gwybodaeth, er mwyn cyrraedd y cam o ddatblygu prosiectau cydweithredu. Heb hynny, dim ond y rheini sy'n gallu gwneud buddsoddiadau hirdymor fydd yn gallu cydweithio, ac felly fydd y buddion a ddaw o gydweithio ddim yn cael eu rhannu'n gyfartal ar draws rhanbarthau a buddiolwyr.

Er mwyn i'r cyllid gyflawni ei nodau, byddai angen iddo fod yn gyllid hyblyg sy'n cael ei lywio gan gyfleoedd, ac sy'n cefnogi buddsoddiadau dilyniannol mewn blaenoriaethau a ddaw i'r amlwg.

Mae SCoRE Cymru (Cefnogi Ymchwil ac Arloesi Cydweithredol yn Ewrop) yn cynnig grantiau bach i annog sefydliadau yng Nghymru i gymryd rhan mewn rhaglenni arloesedd ac ymchwil gydweithredol Ewropeaidd, yn enwedig Horizon 2020. Mae'r cynllun wedi bod yn hyblyg wrth gefnogi amryw o wahanol ddulliau o weithredu er mwyn cyflawni ei nod craidd. Mae sefydliadau sy'n cael cefnogaeth gan SCoRE wedi ennill £5.9m o gyllid gan Horizon 2020, sy'n rhaglen hynod gystadleuol.




2. *Dylid blaenoriaethu cyllid i ymyriadau penodol mewn gweithgareddau trawsffiniol a rhyngwladol, sy'n gysylltiedig â'r pedwar maes blaenoriaeth ac yn ategu'r Strategaeth Ryngwladol*

Ers datganoli, mae Cymru wedi ffurfioli cysylltiadau llywodraeth-i-lywodraeth ag amryw o ranbarthau rhyngwladol sydd â threftadaeth ieithyddol a diwylliannol gyffredin, gwerthoedd cyffredin, a buddiannau economaidd a chymdeithasol cyffredin. Dyma'r rhanbarthau rhyngwladol hynny:

- Llydaw
- Gwlad y Basg
- Fflandrys

Mae gennym berthynas gref â'r gwledydd canlynol hefyd: Yr Almaen, Ffrainc, Iwerddon, UDA a Chanada. Mae'r Strategaeth Ryngwladol yn enwi'r gwledydd a'r rhanbarthau rhyngwladol hyn fel cysylltiadau strategol allweddol rydym yn ceisio eu meithrin a'u cynnal wrth symud ymlaen. Mae'r ddogfen hefyd yn enwi nifer o Rwydweithiau a Chytundebau y gall Cymru eu defnyddio i flaenoriaethu ei gwaith ymgysylltu yn y dyfodol.


Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi enwi nifer o Raglenni Ewropeaidd y byddem am barhau i fod yn rhan ohonynt ar ôl Brexit – yn benodol Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (gan gynnwys Rhaglen Cymru-Iwerddon), Horizon Europe, Erasmus+ ac Ewrop Greadigol.

Mae Coleg Merthyr Tudful wedi cymryd rhan mewn prosiect rhyngwladol a oedd yn ceisio cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu'n addysgol ac yn gymdeithasol, gan helpu dysgwyr i oresgyn rhwystrau rhag cyflogaeth yng Nghymoedd De Cymru. Cafodd 284 o fyfyrwyr gyfle i deithio i'r Almaen ac i gael profiad gwaith mewn naw maes galwedigaethol – adeiladu, technoleg cerbydau modur, peirianneg, busnes, TG, gofal plant, teithio a thwristiaeth, gwallt a harddwch, ac iechyd a gofal cymdeithasol. Tra bo rhai dysgwyr wedi gweld bod eu profiad wedi'u helpu i ddod o hyd i swydd neu brentisiaeth, mae'r coleg hefyd wedi gweld bod pobl eraill sydd wedi cymryd rhan yn rhaglen Erasmus+ yn fwy tebygol o gwblhau eu cyrsiau galwedigaethol ac i lwyddo ynddynt. Ar draws y pynciau, roedd pobl a oedd wedi cymryd rhan yn rhaglen Erasmus+ wedi perfformio 3-16 y cant yn well na'r rheini a oedd heb gymryd rhan yn y rhaglen.

Yn ogystal â chynyddu hyder y myfyrwyr a'u gwneud yn fwy cyflogadwy, mae'r rhaglen hefyd wedi rhoi hwb i'w sgiliau hanfodol ehangach, fel gwaith tîm, datrys problemau a chymell eu hunain:

| |
|---|
| “Mae’r cyllid hwn yn ychwanegu dimensiwn newydd sbon at lawer o gyrsiau, ac yn cyfoethogi’r profiad gwych y mae myfyrwyr yn ei gael yn y coleg,” dywedodd Christine Bissex-Foster, Pennaeth Erasmus+, Menter a Sgiliau ar gyfer y coleg. “Mae gan y myfyrwyr sy’n ymgymryd â’r gwaith hwn fantais glir wrth wneud cais am swyddi ac am le mewn prifysgol.” |

Fel mae’r map isod yn dangos, yn ychwanegol at y buddion cymdeithasol ac ariannol uniongyrchol, mae’r rhaglenni hyn yn fecanwaith pwysig sy’n rhoi cyfle i ni feithrin cysylltiadau pellach â gwledydd a rhanbarthau rhyngwladol pwysig. Mae’r cysylltiadau hyn yn arwain wedyn at fwy o fasnachu a mynediad at gyfleoedd cyllido.




Fel y pwysleisiwyd eisoes, mae cyfle hefyd i sicrhau bod buddsoddi rhanbarthol yn cefnogi gweithgareddau yng Nghymru yn fwy penodol o fewn y DU. Gallai hyn gynnwys cael mynediad at raglenni cyllido yn y DU sy’n seiliedig ar gyfleoedd, clystyrau lleol/rhanbarthol yn gweithio ar draws ffiniau ar gyfleoedd economaidd, neu wledydd yn gweithio ar heriau cyffredin fel newid hinsawdd.

Rydym yn cynnig bod ein strwythurau cymell yn cael eu cynllunio mewn modd sy’n blaenoriaethu prosiectau sy’n cyflawni’r pedwar maes blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi rhanbarthol (a’r amcanion strategol), o fewn y cyd-destun trawsffiniol a rhyngwladol hwn. Dylai gwaith trawsffiniol a rhyngwladol fod yn rhan annatod o fuddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol, gan adeiladu ar ddulliau fel yr ‘ysgol at ragoriaeth’ sy’n cael ei defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol a Horizon 2020[1].

Gallai hyn gynnwys buddsoddiadau arbenigol, neu fuddsoddiadau sy’n gwella gweithgareddau eraill drwy gynnwys elfen drawsffiniol neu ryngwladol. Fodd bynnag, o ystyried yr angen am newid sylweddol o ran gwaith trawsffiniol a

[1] Horizon 2020 yng Nghymru, Adroddiad Blynyddol 2018 - https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/horizon-2020-adroddiad-blynyddol-2018.pdf

rhyngwladol, cydnabyddir y bydd angen buddsoddiadau llorweddol strategol o bosibl ar gyfer rhai gweithgareddau.

Dylid hefyd ystyried y posibilrwydd o fuddsoddi ochr yn ochr â phartneriaid trawsffiniol a rhyngwladol (buddsoddiadau cyfochrog neu arian cyfatebol ar gyfer yr un gweithgaredd), pan fydd y buddion i Gymru yn amlwg.

3. *Arwain rôl strategol ar lefel genedlaethol wrth flaenoriaethu, negodi, goruchwylio a chytuno ar brosiectau trawsffiniol a rhyngwladol, ar sail blaenoriaethau sydd wedi'u gosod gan y rhanbarthau.*

Rhanbarthau ac ardaloedd lleol sydd yn y sefyllfa orau i nodi a blaenoriaethu cyfleoedd unigol wrth iddynt ddod i'r amlwg, ond roedd ein grŵp rhanddeiliaid wedi gweld cyfle i ychwanegu gwerth drwy swyddogaeth gydgysylltu genedlaethol a fyddai'n cyflawni rôl strategol fwy hirdymor. Yn ymarferol, gallai pwysau ar gyllidebau a'r angen i gyrraedd targedau heriol olygu bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar gyflawni yn y tymor byr, ar draul gwaith trawsffiniol a rhyngwladol. Mae dull sefydlog a hirdymor o feithrin cryfderau cenedlaethol yn arwain at fuddion cronnus dros amser[2].

Diben y gwaith cenedlaethol hwn fyddai lleihau'r rhwystrau o ran gwaith trawsffiniol a rhyngwladol ar lefelau lleol a ranbarthol. Bydd darpariaethau ychwanegol y tu hwnt i ardal ddaearyddol Cymru yn rhwystr i effeithiolrwydd rhaglenni, a bydd angen trafod cytundebau â'n partneriaid trawsffiniol a rhyngwladol er enghraifft.

Wrth ystyried arbedion maint, byddai rhai adnoddau yn berthnasol i Gymru gyfan, yn enwedig wrth ystyried ceisiadau i unrhyw gronfeydd posibl sy'n seiliedig ar gyfleoedd yn y DU, yn yr UE ac yn fyd-eang. Wrth geisio cael mynediad at gyllid o'r fath, mae cyfle i gael rôl genedlaethol i gyd-drefnu cynlluniau a gweithgareddau er mwyn rhannu arferion gorau a chreu naratif strategol cyffredin.

Mae gwerth hefyd i roi cynnig clir a chyson i bartneriaid trawsffiniol a rhyngwladol posibl, ac i greu amgylchedd a diwylliant lle bydd cyfleoedd o'r fath yn cael pob cyfle i ddatblygu.

## Rhoi'r dull gweithredu ar waith

Mae'r model gweithredu a gynigir yn seiliedig ar drafodaethau'r Is-grŵp Rhyngwladol a Thrawsffiniol, profiad o gynnig cymorth tebyg yng Nghymru,[3] ac arferion gorau mewn rhanbarthau/gwledydd eraill. Disgwylir y bydd y model yn datblygu, ond mae'n rhoi cyfeiriad pendant er mwyn gwneud gwaith pellach; mae hyn yn bwysig,

---

[2] Playing the long game: Experimenting Smart Specialisation in the Basque Country 2016-2019 (https://www.orkestra.deusto.es/en/research/publications/reports/orkestra-notebooks/1792-playing-long-game-experimenting-smart-specialisation-basque-country-2016-2019)


[3] Gan gynnwys Uned Horizon 2020 Llywodraeth Cymru, sydd wedi cael ei henwi'n enghraifft o arfer da gan Ganolfan Ymchwil ar y Cyd y Comisiwn Ewropeaidd. Ewch i https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/horizon-2020-adroddiad-blynyddol-2018.pdf i gael manylion am sut mae'r Uned yn gweithredu.

oherwydd mae risg sylweddol y byddwn ni'n colli momentwm wrth i ni ymadael â'r UE.

Mae'r diagram isod yn rhoi trosolwg o'r model a gynigir.  Mae'r rhannau mewn lliw yn cynrychioli gweithgareddau y bydd angen adnoddau neu fuddsoddiad newydd ar eu cyfer.  Mae'r rhannau sydd ddim mewn lliw yn cynrychioli gweithgareddau y disgwylir iddynt ddefnyddio adnoddau sy'n bodoli'n barod.

Mae prif elfennau'r model yn cael eu hegluro'n fwy manwl oddi tanodd.

---



Mae tair elfen allweddol i'r model a gynigir: 'Cronfa Sbarduno Hyblyg', 'Portffolio Integredig' o fuddsoddiadau penodol, ac 'Uned Weithredu Ganolog'.

Cronfa Sbarduno Hyblyg

Mae'r dystiolaeth hyd yma yn dangos y bydd llawer o gyfleoedd trawsffiniol a rhyngwladol, o ran eu natur, yn ymddangos yn gyflym ac yn symud yn gyflym. Bydd yn anodd eu rhag-weld hefyd, oherwydd bydd nifer ohonynt yn deillio o feithrin cysylltiadau ar draws ffiniau, yn hytrach na meysydd polisi penodol. Byddai Cronfa Sbarduno Hyblyg yn gyfle i wneud buddsoddiadau bach yn y cyfleoedd hynny a fydd yn ymddangos, a byddai modd ei defnyddio'n hwylus ar draws sectorau, themâu ac ardaloedd daearyddol.

Byddai angen datblygu manylion Cronfa o'r fath, ond gallai gynnwys y canlynol:

- Cyllid grant gyda chyfradd ymyrryd amrywiol ond cymharol uchel, gan fod y gweithgareddau'n annhebygol o fod yn rhai masnachol eu natur.
- Yn seiliedig ar egwyddorion craidd yn hytrach na rheolau cymhwystra cyfyngol ("mae syniad da yn syniad da").
- Sicrhau cydbwysedd rhwng buddsoddiadau ac iddynt enillion posibl clir (e.e. cefnogaeth i ddatblygu ceisiadau am gyllid) a buddsoddiadau ac iddynt fuddion anuniongyrchol hirdymor (e.e. meithrin cysylltiad) – dull gweithredu portffolio.
- Cyllid dilyniannol, ar raddfa sy'n cyflymu a chyflymu o bosibl, sy'n cefnogi'r broses o ddatblygu cyfleoedd yn y tymor hir.
- Bod yn hyblyg, ond gan gydnabod hefyd gwerth ychwanegol buddsoddiadau sy'n ategu buddsoddiadau eraill neu'n gysylltiedig â blaenoriaethau strategol.

Er mwyn sicrhau arbedion maint a bod yn gyson ac yn syml, cynigir creu un gronfa ganolog i Gymru. Mae'n ymddangos y byddai cyllideb 'wedi'i chlustnodi' yn hollbwysig.

Portffolio Integredig

Dylid gwaith trawsffiniol a rhyngwladol gael ei integreiddio mewn unrhyw fframwaith buddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol (yn rhan annatod ohono), ond bydd gweithgareddau'n cael eu cyfyngu'n arw heb adnoddau pwrpasol, a bydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad penodol. Mae'r model yn rhag-weld y bydd y cydbwysedd hwn yn cael ei reoli fel portffolio, gyda dwy brif elfen: Buddsoddiadau Llorweddol a Buddsoddiadau mewn Meysydd Blaenoriaeth.

*Buddsoddiadau Llorweddol*

Mae'r buddsoddiadau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar weithgareddau trawsffiniol a rhyngwladol sydd ar waith ar draws yr holl Feysydd Blaenoriaeth a gynigir ar gyfer buddsoddi rhanbarthol. Nid oes disgwyl iddynt fod yn fuddsoddiadau sylweddol, ond mae'n bosibl iawn y byddant yn rhai ar gyfer Cymru gyfan er mwyn sicrhau arbedion maint a bod y buddsoddiadau'n syml ac yn gyson. O ystyried natur lorweddol y buddsoddiadau, mae'n bosibl y byddai angen cyllideb 'wedi'i chlustnodi' i gefnogi'r math hwn o weithgaredd.

Mae'n rhy gynnar i gadarnhau beth y byddai'r buddsoddiadau hyn yn ei gyflawni ond, yn ôl y trafodaethau/tystiolaeth hyd yma, mae'n ymddangos bod yr elfennau canlynol yn berthnasol:

- Capasiti – mewn sefydliadau/sectorau allweddol er mwyn bwrw ymlaen â gweithgareddau trawsffiniol a rhyngwladol perthnasol. Byddai hyn yn ymwneud â phobl yn hytrach na seilwaith. Gallai gynnwys staff ychwanegol, 'prynu amser' staff cymwysedig/profiadol, gorbenion ac ati. Byddai disgwyl i unrhyw gapasiti newydd gyfrannu at rwydwaith trawsffiniol a rhyngwladol yng Nghymru.
- Gallu – mae newid sylweddol yn gofyn am wella ansawdd a chynyddu nifer y bobl sydd â'r sgiliau priodol i wneud gwaith trawsffiniol a rhyngwladol. Gallai hyn olygu hyfforddiant sgiliau penodol, gan gynnwys proffesiynoli swyddi perthnasol, a dysgu mewn dull mwy anffurfiol ond sydd wedi'i dargedu. Efallai y bydd angen llenwi bylchau o ran sgiliau hefyd, gan wella'r mynediad at arbenigedd allanol.
- Diwylliant – gweithgareddau sy'n newid ymddygiad ac agweddau at waith trawsffiniol a rhyngwladol er gwell. Byddai'r gweithgareddau hyn yn canolbwyntio ar sefydliadau yng Nghymru, ond byddent hefyd yn helpu i ddatblygu cysylltiadau â rhanbarthau a gwledydd eraill. Mae digwyddiadau, gweithgareddau ymgysylltu a chyfathrebu yn enghreifftiau amlwg, ond gallai hefyd olygu dulliau/technegau arloesol a defnyddio data mewn ffordd arloesol.
- Cydweithredu – cyllid i gefnogi rhaglenni cydweithredu dwyochrog neu amlochrog newydd, neu i wella rhai sy'n bodoli'n barod mewn meysydd sydd o bwys strategol neu economaidd.

*Buddsoddiadau mewn Meysydd Blaenoriaeth*

I sicrhau bod gwaith trawsffiniol a rhyngwladol yn cael cymaint o effaith â phosibl, mae hefyd yn bwysig manteisio ar gyfleoedd i integreiddio gweithgareddau ar draws pob portffolio buddsoddi rhanbarthol perthnasol. Gallai hyn fod ar ffurf prosiectau trawsffiniol neu ryngwladol arbenigol (e.e. yn canolbwyntio ar sector, thema neu ardal ddaearyddol) mewn Maes Blaenoriaeth penodol, neu weithgaredd ychwanegol ('pecynnau gwaith' trawsffiniol a rhyngwladol) er mwyn hybu buddsoddiad mewn Maes Blaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau eraill yn bennaf.

Er mwyn sicrhau cysondeb ac ychwanegu gwerth, byddai disgwyl i'r gweithgareddau trawsffiniol a rhyngwladol gadw at egwyddorion craidd ar gyfer buddsoddiadau trawsffiniol a rhyngwladol, ond byddai hyblygrwydd ar gael mewn achosion 'unigryw'. Byddai disgwyl i'r adnoddau a fyddai'n cael eu creu fod yn rhan o'r 'teulu' trawsffiniol a rhyngwladol cyffredinol, ac o rwydweithiau perthnasol.

<u>Yr Uned Weithredu Ganolog</u>

Byddai'r Uned hon yn adnodd canolog ar lefel genedlaethol, a byddai ganddi gyfrifoldeb penodol i fwrw ymlaen â'r broses o gyflwyno gweithgareddau trawsffiniol a rhyngwladol o safbwynt Cymru. Gan adeiladu ar arferion da sy'n bodoli'n barod, byddai'r Uned yn cyflawni rôl gydgysylltu, hwyluso a dylanwadu, gan weithio'n hyblyg gyda phartneriaid strategol a chyflenwi yng Nghymru a thu hwnt.

Gallai gweithgareddau penodol gynnwys y canlynol:

- Bod yn bwynt cyswllt ar gyfer sefydliadau yng Nghymru a thu hwnt sydd am drafod cyfleoedd trawsffiniol a rhyngwladol.
- Helpu i ddatblygu'r egwyddorion craidd a fyddai'n llywio'r holl fuddsoddiadau trawsffiniol a rhyngwladol perthnasol, a gwarchod yr egwyddorion hynny.
- Dal cyllideb y Gronfa Sbarduno Hyblyg, a gweithredu'r Gronfa.
- Datblygu a chefnogi rhwydwaith o gyfranogwyr trawsffiniol a rhyngwladol.
- Mynd ati i chwilio am gyfleoedd trawsffiniol a rhyngwladol sy'n cyd-fynd â chryfderau Cymru, gan gynnwys helpu i ddylanwadu ar raglenni allanol perthnasol.
- Helpu i sicrhau mynediad at raglenni allanol sy'n bodoli'n barod, neu at gyfran deg ohonynt.
- Helpu i ddatblygu rhaglenni trawsffiniol neu ryngwladol newydd pan fo angen.
- Helpu i newid y diwylliant tuag at waith trawsffiniol a rhyngwladol mewn sefydliadau yng Nghymru, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid yn y DU a phartneriaid rhyngwladol ar ddigwyddiadau ar y cyd.
- Hyrwyddo cryfderau Cymru mewn fforymau allanol perthnasol.
- Monitro a dadansoddi gweithgareddau trawsffiniol a rhyngwladol perthnasol, er mwyn llywio camau gweithredu a pholisïau.
- Helpu i sicrhau bod y themâu llorweddol, sef Cydraddoldeb, Prif Ffrydio Rhywedd, Datblygu Cynaliadwy, yr iaith Gymraeg ac unrhyw themâu llorweddol rhanbarthol a nodir, yn cael eu cefnogi drwy weithgareddau trawsffiniol a rhyngwladol.
- Bod yn Ysgrifenyddiaeth ar gyfer Grŵp Rhanddeiliaid trawsffiniol a rhyngwladol (gweler isod).

Byddai gweithgareddau penodol hefyd yn gallu golygu:

- Dal y gyllideb ar gyfer Buddsoddiadau Llorweddol.
- Helpu i roi prosiectau/rhaglenni perthnasol ar waith.
- Gwaith polisi perthnasol, e.e. helpu i ddatblygu safbwynt Cymru ar faterion penodol.

Cydnabyddir y byddai angen i'r Uned ganolog gael perthynas gref â chyrff rhanbarthol perthnasol yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod eu blaenoriaethau'n cael sylw.

Disgwylir hefyd y bydd yr Uned ganolog yn gweithio'n agos gyda'r rheini sy'n gyfrifol am fonitro a gwerthuso, o ystyried natur hirdymor a llai mesuradwy rhai gweithgareddau trawsffiniol a rhyngwladol.

Mae elfennau eraill y model yn cynnwys y canlynol:

<u>Egwyddorion craidd</u>

Bydd y rhain yn adeiladu ar egwyddorion cynllunio'r fframwaith buddsoddi rhanbarthol, ond yn cael eu datblygu i sicrhau bod buddsoddiadau trawsffiniol a rhyngwladol yn arwain at y canlyniadau gorau posibl. Gallai hyn gynnwys dull

cymesur o ran gofynion cyllido (llai ar gyfer y Gronfa Sbarduno Hyblyg, mwy ar gyfer unrhyw Fuddsoddiadau Llorweddol), cydnabyddiaeth o'r ffaith y bydd yn cymryd mwy o amser i weld enillion ar rai buddsoddiadau, a ffordd o flaenoriaethu sy'n cydnabod arferion gorau fel 'arbenigedd craff'. Byddent hefyd yn atgyfnerthu'r angen am adnoddau wedi'u hariannu er mwyn cydweithio i ddenu cyfleoedd i Gymru.

Fel sydd wedi cael ei awgrymu'n barod, byddai'r Uned ganolog yn datblygu'r egwyddorion craidd ac yn eu gwarchod, ond gan weithio'n agos gyda chyrff rhanbarthol yng Nghymru a rhanddeiliaid eraill.

Partneriaid Strategol

Gallai Partneriaid Strategol olygu unrhyw un o Adrannau Llywodraeth Cymru neu unrhyw sefydliad yng Nghymru, yn y DU, yn Ewrop neu yn y Byd sydd â diddordeb mewn gwaith trawsffiniol a rhyngwladol sy'n ymwneud â Chymru. Gallent fod yn cynnig cyngor ar bolisi, gwybodaeth neu gyfleoedd a fyddai'n cael eu datblygu gan yr Uned ganolog a'i phartneriaid.

Gallai rhai cysylltiadau fod yn ffurfiol, neu hyn yn oed yn gontractiol eu natur. Bydd y rhan fwyaf ohonynt yn gysylltiadau sydd o fudd i'r ddwy ochr, ac yn seiliedig ar fudd cyffredin y bydd angen ei feithrin drwy gydweithio rheolaidd rhwng yr Uned ganolog a'i phartneriaid.

Partneriaid Cyflenwi

Mae'r rhan hon o'r model yn cydnabod na fydd yr Uned ganolog yn cyflawni'r holl weithgareddau perthnasol. Mae profiad yn dangos bod gweithio ar y cyd yn gallu sicrhau gwell canlyniadau gan fod pob partner yn canolbwyntio ar ei gryfder/budd ei hun, ac mae'n osgoi dyblygu hefyd.

Yn y rhan fwyaf o achosion, y cyfan fydd hyn yn ei olygu yw sicrhau eu bod yn ymwybodol o beth mae'r naill a'r llall yn ei wneud er mwyn sicrhau eu bod yn ategu ei gilydd, a'u bod yn atgyfnerthu gweithredoedd ei gilydd. Mae modd mynd ati i weithredu ar y cyd hefyd, gyda phob partner yn cyfrannu ei adnoddau ei hun at nod cyffredin (mae hyn wedi gweithio'n dda gydag UKRI er enghraifft).

Fodd bynnag, mae'r model hefyd yn cydnabod y bydd angen rhywfaint o gyllid er mwyn cefnogi partneriaid cyflenwi. Felly, mae'n bosibl y byddai perthynas ariannol â'r Portffolio Integredig. Gallai enghreifftiau gynnwys cyrff lleol a rhanbarthol ac Adrannau Llywodraeth Cymru, ond fydd hynny ddim yn dod i'r amlwg nes bydd y portffolios o weithgareddau yn cael eu datblygu.]

Byddai disgwyl i'r holl Bartneriaid Cyflenwi a ariennir fod yn rhan o'r 'teulu' trawsffiniol a rhyngwladol cyffredinol, ac o rwydweithiau perthnasol.

Grŵp Rhanddeiliaid

Gan fod cyfleoedd trawsffiniol a rhyngwladol mor amrywiol, bydd yn bwysig manteisio ar wybodaeth rhanddeiliaid sydd â phob math o arbenigedd. Bydd hefyd yn bwysig profi perthnasedd systemau cymorth yn barhaus.

Byddai grŵp rhanddeiliaid penodol o arbenigwyr trawsffiniol a rhyngwladol yn hwyluso hynny, a byddai'n gallu datblygu o'r Is-grŵp presennol.  Byddai'n synhwyrol i'r Uned ganolog fod yn Ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Grŵp hwnnw, ac i wahodd Partneriaid Cyflenwi a Phartneriaid Strategol allweddol.

